

# COLEG TREFECA



**H**eddiw, mae'r hen gartref yn parhau yng nghalon y coleg, sy'n adeilad rhestredig wedi'i leoli mewn 5 erw o dir ynghanol prydferthwch Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r ymdeimlad o fod yn deulu Cristonogl yma o hyd. Mae Coleg Trefeca bellach yn ganolfan hyfforddi llygyr ac yn eiddo i Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Cynhelir cyrsiau a chynadleddau yn rheolaidd yn y ganolfan ac mae'n lle delfrydol i encilio ac ymlacio.

## Ein hamcanion:

- Cynnig croeso Cristnogol a chyfle i drafod, addoli, ymlacio a phrofi adnewyddiad ysbrydol
- Hybu cyswllt agosach rhwng yr eglwysi
- Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r ffydd Grisnogol ymysg aelodau eglwysig ac eraill



**T**refeca oedd cartref Howel Harris (1714-1773) a oedd, ynghyd â Daniel Rowland a William Williams, yn un o arweinwyr y diwygiad efengylaidd a gychwynnodd yng Nghymru gyda thröedigaeth Harris a Rowland yn 1735. Roedd Harris yn gyfoeswr i George Whitefield, John a Charles Wesley a Iarlls Huntingdon, a sefydlodd ei choleg ei hun ger Trefeca yn 1768. Ymneilltuodd Harris i Drefeca yn 1750 ac yno, ddwy flynedd yn ddiweddarach, y ffurfiodd ei 'Deulu', arbrawf rhyfeddol o fywyd cymunedol.



**Cyfleusterau i bobl anabl:** rhai ystafelloedd gwely hygyrch i bobl anabl, nifer o gymhorthion yn yr hen goleg yn cynnwys sawl lifft. Mae sustem cylch clywed ar gael ar gyfer pobl fyddar (o drefnu ymlaen llaw).

**Cyrsiau:** Cynigiwn gwrs ar gyfer pregethwyr llyeg. Mae'r rhain yn cynnwys dysgu o bell gyda phenwythnosau yn Nhrefeca. Mae yna hefyd gyrsiau ar gyfer blaenoriaid ac arweinwyr eglwysig, wythnosau gwyliau i'r ifanc, teuluoedd a phobl hyn ac amrywiaeth o gyrsiau penwythnos ar themâu amserol. Gofynnwch am raglan am fanylion pellach.

**Sut i ddod o hyd i ni:** Mae Coleg Trefeca ym mhentref Trefeca ar y B4560 rhwng Talgarth a Llangors. Yr orsaf reilffordd agosaf yw'r Fenni (18 milltir) a gellir darparu lifft.

## Gallwn gynnig:

- Llety preswyl i 37 o bobl mewn ystafelloedd dau wely. Cyfleusterau gwneud te a choffi.
- Coginio cartref da.
- Y Brif Lolfa, yr Ystafell Defynnog ar gyfer cynhadledda, lolfa dderbyn a nifer o lefydd addas i grwpiau bychain gyfarfod.
- Capel Bach ar gyfer addoli a gweddi tawel
- Llyfrgell o lyfrau, pamffledi a chyfnodolion crefyddol.
- Mae cysylltiad Wi-Fi gennym, a gliniadur â PhwyntPŵer ac uwch-daflunydd digidol a sgrin ar gael. Hefyd mae casgliad o DVDs a fideos.
- Amgueddfa, yn cynnwys dodrefn, llyfrau a lluniau o gyfnod Howel Harris